MAREDUDD ap RHOSER (fl. c. 1530), bardd

Enw: Maredudd ap Rhoser
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

brodor o Ddeheudir Cymru, y mae'n debyg. Mynnai ' Iolo Morganwg ' ei gysylltu â Meisgyn (Miskin) ym Morgannwg, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o blaid hynny. Cadwyd peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, ac yn ei phlith awdl serch, awdl foliant gwlad Euas, awdl farwnad Syr Charles Herbert, cywydd i gymodi Wiliam Herbert o Colbrwc â Wiliam Sion ap Rhoser o'r Wernddu, a chywyddau i William Evans, canghellor a thrysorydd Llandaf. Cyfeiria Dafydd Benwyn, yn ei farwnad i Faredudd, at ei farddoniaeth i William Evans.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

NLW MSS 4710, 6511, 13061, 13068, 13072, 13167

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 84

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733875

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu